

# Ar Dân!

## Aelodau'n serenu'n Stafford



Elin Jones yn ennill Aelod Iau y flwyddyn dros Gymru a Lloegr.

Bois Pontsian yn drydydd yn y pêl-droed yn genedlaethol.



Clwb Mydroilyn yn ennill Hyrwyddo Clwb dros Gymru a Lloegr.

## Sioe Frenhinol 2008



Gyda'r haul yn tywynu'n braf yn Llanellwedd, o fewn trwch blewyn llwyddodd aelodau Ceredigion i gipio'r tlws her U.C.A. Braf i gael y tlws nol i Geredigion. Llongyfarchiadau I bawb fu'n cystadlu.

Dyma'r canlyniadau:

Tirnod Enwog—1af

Cystadleuaeth aelodau—!af

Canllaw Bras—1af

Barnu Gwartheg godro—2il

Generation game—2il

O amgylch y byd—1af

Cystadleuaeth gwisgo—2il

Cneifio — 3ydd

Can i Gymru—2il

Barnu defaid charlois—3ydd

Gwaith coed—1af

Hyrwyddo clwb—1af

## SWYDDOGION NEWYDD 2008-2009

Cafodd swyddogion newydd eu hethol yn y C.C.B ym mis Medi. Dewch i ni gael gwybod mwy amdanynt!

### HAYDN RICHARDS - Llywydd y Sir



**Byw:** Lowtre, Llanwnnen  
**Gwaith:** Ffermwr a Chyng horydd Sir  
**Cyn aelod o glwb:** Llanwenog  
**Pryd a ble ydych chi fwyaf hapus?** Pan gaf y cyfle i fod adre gyda'r nos.

**Sut fydddech yn gwario £10,000 mewn diwrnod?** Ar offer fyddai yn gwneud bywyd mwy hwylus.

**Disgrifiwch eich hun mewn tri gair.** Amyneddgar, Pendefynol, Cyfeillgar.

**Beth fydddech yn achub os byddai'r tŷ ar dân?** Y Teulu

### GLYN JONES - Is Lywydd



**Byw:** Lloydjack, Felinfach  
**Gwaith:** Ffarmwr  
**Cyn aelod o glwb:** Felinfach  
**Pryd a ble ydych chi fwyaf hapus?** Adref ar yr aelwyd yng nghwmni Dewi a Daniel, y ddau Wyr bach.

**Sut fydddech yn gwario £10,000 mewn diwrnod?**

Prynu rhyw beiriant i hwyluso'r gwaith ar y fferm

**Disgrifiwch eich hun mewn tri gair.** Ffarmwr bach cyffredin

**Beth fydddech yn achub os byddai'r tŷ ar dân?** Mae'n well i fi ddweud y wraig.

### DANIEL DOWNS - Cadeirydd y Sir



**Byw:** Llanrhystud. Gynt o Benuwch  
**Gwaith:** Rheolwr Amaethyddol yn Barclays  
**Cyn aelod o glwb:** Llangeitho a Brynherbert  
**Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?** Adre yn Cilcert  
**Sut fyddet yn gwario £10,000 mewn diwrnod?**

Unrhyw beth ar olwynion.

**Oes gennyf unrhyw arferion gwael?**  
Cnoi ewinedd fy mysedd.

### ARWEL JONES - Is Gadeirydd



**Byw:** Odw! Mor belled!  
**Gwaith:** Trydanwr  
**Cyn-aelod o glwb:** Mydroilyn  
**Pryd a ble'r wyt ti fwyaf hapus:** Amser swper  
**Disgrifia dy hun mewn tri gair:** Hawdd fy mhlesio  
**Beth fyddet ti'n achub os byddai'r tŷ ar dân:** Ffôn, dyddiadur gwaith ... o ie, a'r gath!  
**Beth yw'r peth diwethaf yr wyt yn ei wneud cyn mynd i'r gwely:** Tynnu 'nillad



### JOHN HOPKINS



**Pa lyfr wyt ti'n ei ddarllen ar hyn o'r bryd?** Isolation Shepard gan Iain R Thomson.

**Beth yw dy hoff lyfr?**

Cysgod y Cryman—Islwyn Ffowc Ellis a Da Vinci Code—Dan Brown.

**Pa lyfr oeddet yn mwynhau yn blentyn?** Unrhyw lyfr gan Roald Dahl. Mae gennyf rhan fwyaf ohonynt. Y ffefryn bydde Fantastic Mr Fox.

### ENFYs EVANS



**Pa lyfr wyt ti'n ei ddarllen ar hyn o'r bryd?** Igam Ogam gan Ifan Morgan Jones  
**Beth yw dy hoff lyfr?** Memoirs of a Geisha, Arthur Holden.  
**Pa lyfr oeddet yn mwynhau yn blentyn?** Oriau hapus gan Mary O Williams.

Llongyfarchiadau i Daniel Downes am gael ei ethol yn gadeirydd pwyllgor materion gwledig Cymru ac i Meira Lloyd am gael ei wneud yn Seidcic Fforwm Ieuenticid Cymru. Hefyd i Nia Evans ar gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Hyfforddi ac Hyrwyddo Cymru. Pob dymuniad da iddynt!

## LLONGYFARCHIADAU MAWR ELIN!

### O Gymru fach i Brydain fawr.

Fyddde'n i byth wedi meddwl bydde ni'n ishte fan hyn yn adrodd yr hanes 'ma wrthych chi! Ond na fe, fi ma!

Ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Hydref, bant a ni ar sbîd i Stafford i faes y sioe yn y bore bach, y Sat Nav yn gweud wrtho ni i fynd un ffordd a'r map yn ein arwain y ffordd arall! Fe gyrhaeddodd ni jyst mewn pryd ar gyfer y cyfweliad. Roedd yna banel o ddau feirniad, un o Gymru a'r llall o Loegr, ond gorfi i mi wneud y cyfweliad yn saesneg, felly dyna ddechrau bach sigledig (i'r rhai hynny ohonoch sydd yn fy adnabod...dydy fy saesneg i ar lafar ddim y peth gore yr alle chi ei glywed!) Ond yn ôl y beirniaid roedd gennyf bortffolio da o'm anturiaethau a'm gweithgareddau gyda'r C.ff.i yn y deuddeg mis diwethaf ac oedd yn siarad lot dros ei hunan, felly roedd y cyfweliad ond yn gyfle iddynt hwy i gwrdd a mi ac i weld pa mor frwdfrydig yr oeddwn i dros y mudiad, felly roedd popeth yn teimlo'n well y mwyaf sydyn! Fe gefais sawl cwestiwn heriol er hynny, ond fe ddes i drwyddi! Fi oedd yr olaf i gystadlu, felly ar ôl amser byr o aros am y canlyniadau, daeth yr amser i gyhoeddi pwy oedd yr enillydd, ar ôl i bawb dderbyn plât arian bob un am ddod i'r rownd derfynol, cyhoeddwyd mai fi oedd wedi ennill y teitl anrhydeddus yma, a 'na beth o'dd sioc bach neis! Ar ol tynnu lot, lot o luniau, dyma ddechrau ar ein taith hir adref gan stopio yn ASDA am swper i ddathlu. A doedd fy ffôn heb stopio canu...nes iddo fynd yn fflat yn oriau man y bore! Dyna ddiwrnod a phrofiad a hanner!

Llongyfarchiadau hefyd i C.ff.i Mydroilyn ar ennill y gystadleuaeth Hyrwyddo clwb. Roedd Sir Ceredigion yn disgleirio!

Elin Jones

## DAN AC ALED—YR ENTREPRENEURS MAWR



Nod cystadleuaeth Busnes Fferm FfCCFfi yw rhoi cyfle i aelodau'r mudiad i roi cais proffesiynol at ei gilydd, er mwyn ceisio am denantiaeth busnes fferm. Er mai dim ond ar bapur oedd y gystadleuaeth, roedd yr amgylchiadau mor agos ag y gallen nhw fod i'r sefyllfa go iawn ac yn gyfle gwyb i wisgo sgidiau gwahanol. Y rhan gyntaf o'r gystadleuaeth oedd diwrnod allan ar y degfed o Fai i ymweld â'r fferm roeddwn yn ceisio amdani, sef Neather Morton Hall, ger Warwick- hefyd yn gartref i goleg amaeth sylweddol.

Felly bant a finnau ac Aled am ddiwrnod o fus

nesa- aeth yn ddiwrnod a hanner! Yn fferm y coleg, gyda


myfyrwyr yn helpu rhedeg 250 o wartheg godro, 800 o ddefaid, 150 o dda sugno a 500 erw o barlys- roedd gen Neather Moron tipyn i gynnig- a thipyn o waith meddwl am sut i'w rhedeg petai Aled a finnau'n cael gwneud! Roedd tipyn o bendroni wrth i ni gyrraedd nôl i ddawns rali Sir Gar y noswaith hynny- yn wir- nath Aled feddwl gymaint am Neather Morton- fe fethodd e dynnu noswaith hynny- credwch neu beidio!

Felly wedi meddwl, a chware da ffigyrau am sbel gyda nifer fawr o wahanol newidiadau hoffwn wneud i'r fferm, ac ambell i noswaith hir yn pendroni, aethom ymlaen i greu cynllun fferm ar gyfer y cwbl, wrth i ni benderfynu parhau gyda'r godro a lleihau nifer y defaid dros gyfnod o amser, a hefyd agor siop ar lein.

Wedi rhoi'r pecyn at ei gilydd- ymlaen at ddiwrnod arall allan, yn Sioe Frenhinol Lloegr yn Stoneleigh, ac am gyfweliad go iawn gydag arwerthwr o'r cwmni Savills, a phanel o ffermwyr, lle cafwyd y cyfle i roi ein syniadau drosodd, wrth ochr yr 8 tîm arall o hyd a lled Cymru a Lloegr, gyda'r canlyniadau ar ddiwedd y dydd, yn dangos llwyddiant go dda i'r Cymry, wrth i dîm Dyffryn Cothi (er bod hanner y tîm yn byw yng Ngheredigion!) ddod yn ail ac Aled a finnau'n gyntaf.

Wedi cystadlu, ma rhaid dweud, nad oes yna gyfle arall fel hyn ar gael i Ffermwyr Ifanc gael rhoi cynllun at ei gilydd ar raddfa mor fawr. Does dim ots beth yw eich gwaith chi o ddydd i ddydd, ma'r profiad yma yn rhoi cyfle i gael gweld agwedd anarferol o amaeth- agwedd bwysig iawn i feithrin aelodau sy'n bwriadu ceisio am ffarm yn y dyfodol.

# I Bedwar Ban Byd



Y  
S  
W  
I  
S  
T  
I  
R

Cynhaliwyd y Rali Ewropeiadd eleni yn y Swistir, a chefais i, ynghyd a Carol Davies, CFFI Pontsian, yr anrhydedd o deithio gyda 3 aelod arall o Gffi Cymru ar y taith bythgofiadwy yma.

Y Plantahof mewn tref o'r enw 'Landquart' oedd ein cartref am rhan helaeth o'r wythnos. Coleg Amaethyddol yng nghanol mynyddoedd yr Alpau yw'r Plantahof, coleg sy'n cynnig addysg trwy gydol oes i amaethwyr y Swistir. Tref bychain tua 100km i'r de-ddwyrain o ddinas Zurich yw Landquart, ac roedd yn leoliad perffaith a phrydferth iawn i'r rali. Trefnwyd y rali gan mudiad 'Rural Youth Ewrop' a gwsteiwyd y rali gan fudiad y 'Landjugend', sef y mudiad i ffermwyr ifanc yn y Swistir.

Ynghyd a ni'r Cymry, roedd yna 119 o bobl ifanc o 20 gwahanol gwlad wedi teithio i'r Swistir, roedd hyn yn golygu bod yna amrwyiaeth eang iawn o bobl i ddod i adnabod.

Thema'r rali oedd 'Natur a Thegnoleg' a trefnwyd amryw o weithgareddau a gweithdai yn ymwneud ar thema yma. Yn ystod yr wythnos, cawsom y cyfle i ymweld a pwerdai trydan, ffermydd caws Alpaidd ac ysgol a oedd wedi gosod paneli solar ar y tô er mwyn cyflenwi trydan i Zurich a creu elw sylweddol i coffrau'r ysgol yn y broses.

Yn ystod yr wythnos, cawsom hefyd y cyfle i weld golygfeydd trawiadol iawn o ben mynyddoedd yr Alpau. Ar ben y mynyddoedd yma roedd modd gweld tiroedd yr Almaen, Yr Eidal ac Awstria. Roedd yna hyd yn oed ychydig o eira ar ben y mynyddoedd yma yng nghanol yr haf. Trwy lwc, nid oedd rhaid cerdded i ben y mynyddoedd yma, ond yn hytrach defnyddwyd y 'cable cars'!

Heb oes, un o'r uchafbwyntiau'r wythnos i mi oedd y bwffet rhyngwladol, dyma cyfle i bob wlad creu arddangosfa o wahanol bwydydd a diodydd o'i gwlad. Roeddwn ni wedi bod yn ffodus iawn cael cefnogaeth hael oddi wrth nifer o gwmnïoedd bwyd a diodydd Cymreig, er mwyn i bawb cael cyfle i blasu cynnyrch Cymreig. Roedd y bwydydd o'r gwahanol gwledydd yn amrywiol i ddweud y lleiha - cig carw o'r Ffindir a 'seaweed' o Gogledd Iwerddon er engraifft. Roedd noson y bwffet rhyngwladol yn noson gwych!

Am un noson, fe rhannwyd bawb mewn i grwpiau o dau neu dri, a threfnwyd ein bod yn aros gyda teuluoedd aelodau'r Landjugend. Dyma cyfle i ddod yn gyfarwydd a bywyd a tueddiadau pob dydd pobl y Swistir. Cefais i'r cyfle, yng hyd a merch o'r enw Ingela o'r Ffindir, i aros ar fferm laeth tua awr o'r Plantahof ac roedd yn cyfle gwych i cael cip-olwg ar amaeth y wlad. Cafwyd noson pleserus iawn yng nghwmni y teulu ac roeddent yn awyddus iawn i wybod mwy am Gymru.

Dyma beth oedd cyfle unigryw i ddod i adnabod gymaint o bobl o wahanol ddywiliannau. Mae'n cyfle i ymestyn gorrwelion ac i ddod i adnabod ffrindiau newydd trwy gydol Ewrop.



Sara Downes a Carol Davies

Tra yn Helsinki bûm yn aros mewn hostel gyda Sara, Thomas a Moonika. Yn ystod y ddau ddiwrnod byr yma bûm yn ymweld â nifer o atyniadau'r ddinas gan gynnwys y Stadiwm Olympaidd; Sunomelina; Eglwys yn y graig; a chofeb Sibelius y cyfansoddwr. Yna rhaid oedd neidio ar y trên ar siwrnai fer i ddinas Hyvinkää.

Roedd fy nheulu cyfnewid yn byw yng nghyffiniau Hyvinkää, mewn ardal wledig o'r enw Kytaya. Pan gyrhaeddais i'r llety teimlais fy mod wedi mynd yn ôl mewn amser. Bwthyn bach melyn ydoedd gydag un ystafell wely, cegin â phopty bara mawr, toiled drydan ac ystafell fyw fychan. Bûm yn pendroni am sbel, ble oedd gweddill y teulu yn mynd i aros, a ble oeddwn i yn mynd i ymolchi, gan nad oedd bath na chawod yn agos i'r lle.

Wedi dadbacio daeth pethau ychydig yn fwy clir, dim ond myfi a fyddai yn aros yn y bwythyn bach melyn, roedd gweddill y teulu yn aros yn y tŷ mawr yr ochr arall i'r berllan. Yn y tŷ mawr y byddwn yn bwyta ac yn ymolch ac yn treulio tipyn o fy amser sbâr, gan ei fod lawr yn gynhesach!! Cwrddais â'r teulu i gyd yma am y tro cyntaf, Marika, Tauno ac Aino. Anodd iawn oedd ceisio cyfathrebu gyda'r rhieni gan ychydig o Saesneg a siaradai'r fam, ar unig air Saesneg a deallai'r tad oedd coedwig!! Teulu traddodiadol a hen-ffasiwn iawn oeddynt, yn ailgylchu pob dim. Roedd ganddynt hyd yn oed toiled compostio!! Rhywbeth yn debyg i'r sied ar waelod yr ardd!!

Tra ar fy ymweliad gyda'r teulu bûm yn gwneud nifer fawr o weithgareddau yn cynnwys; ymweliadau ag amgueddfeydd, garddio, golchi ffenestri'r tŷ, gweld band lleol, a chyngerdd o gerddoriaeth a dawnsio traddodiadol. Ond mae yna weithgaredd sy'n sefyll allan yn y meddwl y "Midsummer Fest".

Mae'r "Midsummer" yn debyg iawn i wyl y banc yn y wlad yma. Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, y diwrnod hiraf, nid yw'r haul yn machlud o gwbl. Maent yn dathlu'r ffaith yma trwy godi'r faner tu allan i'r tŷ, cynnu coelcerth wrth ymyl y llyn, a chael Barbiciw. Maent hefyd yn mynd i'r sawna, dyna oedd profiad. Roedd y teulu i gyd yn mynd yn noethlymun!! Roedd hi'n agoriad llygad i fynd i'r Ffindir ac yn ystod y bythefnos a threuliais yno, dysgais gryd dipyn am y bobl a'i harferion, a'u hiaith.



Mererid Jones

Y

Ff

I

N


D

I

R

Y ‘Maple Leaf’, ‘Tim Hortons’, ‘Loonies’ ar ‘Toonies’. Os nad ydych yn siŵr am beth rwy’n son yna rydych heb fod yng Nghanada. Ond eleni cefais i’r fraint o gael treulio cyfnod allan yno yn cynrychioli’r CFFI dros Gymru a Lloegr drwy raglen Discovery. Wedi teithio dwywaith o’r blaen gyda CFFI Cymru, y llynedd penderfynais roedd rhaid bod yn fwy mentrus a mynd am un o deithiau tramor cenedlaethol. Cefais fy newis ynghyd a Hannah Duggan o Radnor i fynd am dair mis yn Ontario a sefyll gyda theuluoedd aelodau’r JFAO (Junior Farmers Association of Ontario). Mudiad tebyg iawn i’r CFFI. Mi roedd tair mis i weld yn amser hir ar y dechrau, ond unwaith cyrhaeddais yno mi aeth yr amser yn gyflym iawn coeliwch fi ac oeddwn nôl yng Nghymru ymhenn dim. Cefais brofiadau anhygoel tra mas yno, profiadau ni oeddwn wedi dychmygu o gwbl. Un ohonynt oedd rafftio ‘whitewater’ ar yr afon Ottawa - un o’r afonydd gorau yn y byd i wneud y fath hon o weithgaredd. Mi roedd sgïo ar y dŵr yn brofiad a hanner hefyd, ond mi gymerodd hi sawl cynnig cyn oeddwn yn medru sgïo ar y dŵr yn iawn. Tra allan yn Ontario cawsom flas ar sawl ddull o ffermio. Er taw gwartheg godro a thyfu cynydau oedd ei brif ddiwydiant, mi oedd yna amryw o ffermydd gwahanol yno hefyd megis fferm Buffalo, Lamas ac Elpacas. I mi un o’r ffermydd a wnaeth yr argraff orau arnai i oedd ymweld â fferm odro roboteg. Mi oedd hi’n ddi-ddorol iawn o weld y dechnoleg yma’n gweithio oherwydd mi roedd y cwbl yn cael ei beiriannu gan gyfrifiadur. Un o’r uchafbwyntiau eraill i mi hefyd oedd ymweld â’r ‘Niagara Falls’ a chael cerdded tu ôl i’r dŵr yn y twneli a mynd ar y cwch ‘Maid of the Mist’.

Ond fyddai’r daith ddim wedi bod yr un peth heblaw am y cwmni. Mi fues i a Hannah yn ffodus iawn o gael teithio o amgylch Ontario gyda 6 o bobl eraill o Ewrop. Dau o’r Alban, dau o Ulster, un o’r Almaen ac un o’r Swistir. Cawsom lot o sbort a sbri wrth deithio o amgylch y lle ac wedi cael profiadau diri. Ond y caredigwydd y bobl yng Nghanada wnaeth fy nhaith yn werth chweil i mi. Pob un yn groesawgar ac yn edrych ar ein holai ac yn gwneud i mi deimlo’n gartrefol bob amser, fel petai ni yn rhan o’u teuluoedd a phob un ohonynt yn ein gwahodd ni nôl i aros. Yn wir mi fydd rhaid dychwelyd nôl i Ganada rhyw ddydd. Yn bendant mae’r daith hon yn un o’r teithiau gorau yn y rhaglen Discovery a fydd ni yn annog i unrhyw aelod yng Ngheredigion i fynd amdani.



Lyn Jenkins

# RALI'R SIR



MYDROILYN YN FUDDUGOL!

O amgylch y byd – Caerweddros  
Arddangosfa Ffederasiwn – Llanwenog  
Gosod blodau – Penparc  
Coginio – Llanddeiniol  
Crefft – Llangwyrfon  
Cystadlaethau’r Aelodau – Llanddeiniol  
Tirnod Enwog – Caerweddros  
Coedwigaeth – Llanddeiniol  
Barnu moch – Talybont



Ond dyw John yn foi lwcus!!!

Canllaw bras i – Caerweddros  
Barnu defaid Charlois – Mydroilyn  
Barnu gwartheg godro—Penparc  
Generation Game – Brynherbert  
Gwisgo arweinydd – Llanddeiniol  
Dawnsio – Mydroilyn  
Can i Gymru – Caerweddros  
Ffotograffiaeth – Llanwenog  
Cneifio defaid – Cneifio defaid

# Mwy o gystadlu

## **RYGBI A THYNNU'R GELYN**

Oherwydd poblogrwydd y ddwy gystadleuaeth yma penderfynwyd eleni eu cynnal ar ddwy noson wahanol ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau i glwb Troedyraur ar ennill y Rygbi ac i glwb Llanwenog ar ennill cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn. Hefyd, i dim Tynnu'r Gelyn merched Llanddewi & Co.

Cynhaliodd y Fforwm Ieuenctid cystadleuaeth **It's A knockout** eleni eto gyda nifer o dimau yn cystadlu. Llongyfarchiadau i dim cymysg Llanwenog a Llanddewi ar ennill y gystadleuaeth.

## **CHWARAEON DAN DO**



Dyma gystadleuaeth gyntaf y flwyddyn. Llongyfarchiadau i glwb Mydroilyn ar ennill ac i Lanwenog a Thrisant am ddod yn gydradd ail.

## **CYNNYDD AELODAETH 2007-2008**



Llongyfarchiadau mawr i glwb Penparc ar ennill y cwpan am y cynnydd mwyaf yn eu haelodaeth.

## **CHWARAEON Y SIR**

Tyrrodd yr aelodau i Landysul eleni ar gyfer Chwaraeon y Sir. Llongyfarchiadau i Bontsian a ddaeth i'r brig. Dyma'r canlyniadau:-

Pel-droed (dros 17) – Pontsian  
Pel-droed (dan 17) - Mydroilyn  
Pel-rwyd (dan 26) – Llanwenog  
Pel-rwyd (dan 18) – Tregaron  
Rownderi – Llangwyrfon  
Hoci – Pontsian  
Athletau—Ponsian



Tîm Pêl rwyd Llanwenog a aeth ymlaen i gynrychioli'r sir yn Aberystwyth gan ddod yn 3ydd.

## **SIARAD CYHOEDDUS SAESNEG**



Cafwyd dwy noson o gystadlu brwd ar gampws Theatr Felinfach ar dechrau mis Hydref. Llongyfarchiadau i'r canlynol:-

Dan 14 – Dihewyd B  
Dan 16 – Llangeitho  
Dan 21 – Llanwenog  
Dan 26 – Pontsian

Clwb Pontsian am ennill y gystadleuaeth. Pob lwc i'r aelodau fydd yn cynrychioli'r Sir ym mis Mawrth ym Mhort Talbot.

## LLWYDDIANT Y BOIS FFENSO



Llongyfarchiadau mawr i Bledwyn Henson, Rhodri Hughes a Emyr Harries o Glwb Llanddeiniol ar eu llwyddiant yng nhystadleuaeth y ffensio ym mis Gorffennaf yn y Royal Show.

## TREIALON CWN DEFAID

Ar y 6ed o Awst cynhaliwyd Treialon Cwn Defaid y sir ar fferm Morfa, Llanrhystud, drwy garedigrwydd y teulu Jones. Er i iddi droi'n wlyb yn y prynhawn ni wnaeth amharu ar y cystadlu brwd. Daeth nifer fawr ynghyd i gefnogi'r Mudiad ac erbyn diwedd y dydd cafwyd dros gant o rediadau. Er nad oedd nifer fawr o aelodau'r Mudiad wedi mentro i gystadlu yn yr adran Fferm-wyr Ifanc, braf oedd gweld brwdfrydedd y rheini a wnaeth fentro. Gallwn fod yn hyderus fod y grefft yn ddiogel yn eu dwylo.

Llywydd y dydd oedd Mrs Meinir, Lewis, Cefnugrugwen, Llanddeiniol. Pan yn aelod o'r mudiad bu Meinir yn cystadlu yng nghystadleuaeth treialon y ffermwyr ifanc a dod i'r brig droeon. Diolch iddi am ei geiriau pwrpasol a'i rhodd i'r muduad. Hoffwn hefyd ddiolch i Mr Meirion Jones am feirniadu, i'r holl noddwyr, merched Llanddeiniol am bartoi'r bwyd, i Mared am ei gwaith difluno ac i aelodau'r pwyllgor materion gwledig a fu'n brysur yn stiwardio a sicrhau fod yna ddigon o ddefaid pan fod angen. Edrychwn ymlaen yn frwd at dreialon 2009!

## DIWRNOD ALLAN AR Y FFERM



Fel rhan o gynllun newydd, trefnodd pwyllgor materion gwledig y sir, diwrnod ar fferm Blaenglowon

gyda phlant ysgolion cynradd ardal Llandysul. Cafwyd diwrnod addysgiadol iawn gyda phawb yn mwynhau.

## SIOEAU'R HAF

Er y cafodd nifer o sioeau eu canslo oherwydd y tywydd gwlyb bu'r clybiau yn hyrwyddo'r mudiad ar treilyr y C.Ff.I yn sioeau Aberteifi, Llambled ac Aberystwyth. Diolch i bawb am eu hamser.

## DARLLEDU YN Y SIOE

Fel i chi gyd shwr o fod yn gw'bod, fe fues i'n helpu Trystan a Steff, dau aelod arall o'r C.f.f.i i ddarlledu ar S4C o adran y C.f.f.i yn y Sioe Frenhinol dros wyliau'r Haf, a dyna beth o'dd profiad! Roedd dod i adnabod y ddau arall yn un peth, heb son am yr holl bobl arall, Princess Ann, y cneifwyr, staff C.f.f.i Cymru y timoedd Tynnu rhaff i gyd a chriw teledu Boomerang o'dd wastad yno os oedd angen help arnai! Roedd yn yn brofiad bythgofiadwy, codi'n gynnar....cysgu'n hwyr...a darlledu y diwrnod wedyn eto, roedd angen disgybleth, a bachan, doedd gen i ddim lot o hwna, ond erbyn diwedd yr wythnos, roeddwn i wedi dysgu sut i gyrraedd lleydd ar amser a chodi'n gynnar! Fe wnes i lawer o ffrindiau newydd sy' nawr yn fy helpu yn fy swydd fel Aelod Iau Cymru. Gobeithio i chi fwynhau gwyllo'r rhaglen byr bob nos a theimlo fel eich bod yn rhan o'r bwrlwm gyda ni, achos fe allaf eich sicrhau chi, fe wnes i! A do, dwi wedi sychu....!

## CCB CYMRU

Cynhaliwyd CCB Cymru eleni yn Aberystwyth ar benwythnos yr 12fed a'r 13eg o Fedi. Cafwyd noson 'wlyb' iawn ar y nos Wener gyda digonedd o dyllau mewn un yn y Pub Golf! Roedd y nos Sadwrn yn dda hefyd gyda phawb wedi gwisgo lan i gyd-fynd a'r thema 'Dyddiau Ysgol.' Bu merched Llanwenog yn chwarae pel-rwyd, aelodau o Langwyrfon yn chwarae rownderi a bois Pontsian yn chwarae pel-droed. Yn dilyn llwyddiant y bois aethant ymlaen i Stoneleigh i gynrychioli Cymru.



## TY HAFAN / TY GOBATH £2,034.90



## EVANS BROS

Arwerthwyr, Priswyr, Gwerthwyr Tai  
MARCHNAD DA BYW LLANYBYDDER  
**Dydd Llun** – Pob dosbarth o ddefaid  
**Dydd Iau olaf o bob mis** – Gwerthiant Ceffylau  
Gorllewin Cymru  
– 100 i 300 o geffylau yn fisol  
**Gwerthiant Gwartheg Stôr** – 2il Sadwrn yn fisol  
Gwerthiannau cyson o beiriannau, dodrefn a  
gwerthiannau fferm  
**TAI AC EIDDO O BOB DISGRIFIAD AR GAEL**  
**YN GYSON**  
Swyddfa'r Marchnad, Llanybydder, Sir Gâr. SA40  
9UE Rhif ffôn 01570 480444

Specialist in

**GWAITH SAER**

**Darren Thomas**  
CARPENTER

- UPVC
- WINDOWS
- DOORS
- CONSERVATORIES
- PORCHES
- FASCIAS / SOFFITS
- TIMBER DECKING
- KITCHEN FITTER
- LAMINATE FLOORS

Telephone      Mobile

01570 471 330      07899 805 475

GELLI AUR, FFYNNON OER, FELINFACH, IAMPETER, CEREDIGION, SA48 7SA

**GETHIN THOMAS**  
PONTSIAN

**ADEILADWR**

07791919867      01545590408

**WENDY DAVIES**  
SIOP Y PENTREF  
FELINFACH

Am gig o'r safon uchaf, nwyddau, cardiau, CDs a  
thegannau.  
01570470381

Dyma fan cychwyn  
eich dyfodol...

Your future  
starts here...



- ✔ Os oes angen i chi ailfeddwl... siaradwch gyda ni nawr.
- ✔ Gwybodaeth am leuedd gwag ar gyrsgiau, gwaith a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg.
- ✔ Cysylltwch â'ch Canolfan Gyrfaoedd leol.
- ✔ If you need to rethink... talk to us now!
- ✔ Vacancy information on courses, jobs and training for school and college leavers.
- ✔ Contact your local Careers Centre.

Gyrfa Cymru  
Careers Wales

Gyrfa Cymru - Gorllewin

**01269 846000**  
Careers Wales West

www.gyrfacymru.com    www.careerswales.com    ebost/email: mail@cwwest.co.uk

## DYDDIADAU I'W COFIO

16eg o Dachwedd—Cyfweliadau teithiau tramor  
27ain o Dachwedd—Cwis y Sir  
9fed o Ionawr—Dawns y Frenhines—Prifysgol Cymru, Aberystwyth.  
14eg, 15fed a 16eg o Ionawr—Siarad Cyhoeddus Saesneg  
25ain o Ionawr—Cymanfa'r Frenhines.  
16eg-23ain o Chwefror—Cystadleuaeth y Panto.



Os oes gennych ddeunydd neu  
hysbysebion ar gyfer y rhifyn  
nesaf danfonwch at:-  
Enfys Evans  
Hafan,  
Llanddeiniol,  
Aberystwyth,  
Ceredigion

**Llongyfarchiadau i Rhys a  
Diana Davies ar enedigaeth  
Efa Rhys ac i Teleri Jenkins a  
Hywel Davies a Peter a Helen  
Howells ar eu priodas. Hefyd  
i Geraint Lloyd-Davies a Iona  
Jones ar eu dyweddiad ym  
mis Awst ac i Emyr Jones a  
Caryl Haf ar eu dyweddiad  
ym mis Mehefin. Dymunwn  
wellhad buan iawn i Trystan  
Jones o Glwb Caerwedros ar  
ol ei ddamwain.**



**Tîm Golygu**  
Enfys Evans  
John Hopkins  
Alwen Jones  
Buddug Lloyd  
Iona Jones  
Teleri Evans